

# **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

## **Safonau Parcio**

## **Canllawiau Cynllunio Atodol**

**Dyddiad Cymeradwyo'r Ymgynghoriad: Medi 2020**

**Dyddiad Cymeradwyo Mabwysiadu: Mai 2021**

This item is also available in English/ Mae'r eitem hon ar gael yn Saesneg hefyd

## CYNNWYS

Cyflwyniad.....	3
Gosod y cyd-destun ar gyfer datblygiadau cynaliadwy.....	4
Parthau.....	5
Adran A: Gwasanaethau a Phwysoli Gwasanaethau.....	7
Adran B: Gofynion Parcio Beiciau.....	8
Adran C: Uchafswm Gofynion Parcio Preswyl.....	9
Adran D: Uchafswm Gofynion Parcio Dibreswyl.....	11
Adran E: Ardaloedd Parth 1.....	16
Adran F Darpariaeth Parcio i Bobl Anabl .....	17

## Cyflwyniad

1. Diben y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) hyn yw cynorthwyo'r rheiny sy'n gwneud ceisiadau cynllunio gyda manylion gofynion parcio ar gyfer datblygiadau newydd. Mae'r canllawiau hyn wedi'u hymgorffori yng nghydestun datblygu cynaliadwy, yr angen i leihau teithio gyda char a blaenoriaethu dull teithio mwy cynaliadwy.
2. Nid yw dogfennau CCA yn ffurfio rhan o Gynllun Datblygu Lleol wedi'i fabwysiadu ond eu bwriad yw cynnig canllawiau manwl yn ymhelaethu ar y Cynllun. Maent yn cynorthwyo datblygwyr, ymgeiswyr a swyddogion cynllunio yn y trafodaethau cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio ac yn darparu cyd-destun i werthuso ceisiadau cynllunio gan swyddogion cynllunio ac Aelodau'r Awdurdod.
3. Mae'r CCA drafft hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn iddynt gael eu hystyried gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'u mabwysiadu'n ffurfiol.
4. Mae'r CCA hyn wedi'u paratoi yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau trafndiaeth gyhoeddus cenedlaethol, ac yn arbennig yn cymryd i ystyriaeth y canlynol:
  - Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11; Chwefror 2021): *Llywodraeth Cymru*
  - Nodyn Cyngor Technegol 18 - Trafndiaeth (2007): *Llywodraeth Cymru*
  - Llawlyfr Strydoedd (2007): *Yr Adran Drafndiaeth a Llywodraeth Cymru*
  - Llawlyfr Strydoedd 2 (2010): *Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant*
5. Mae'r gofynion parcio wedi'u nodi yn y CCA hyn yn seiliedig ar Safonau Parcio Cymru Gyfan ac wedi'u haddasu ar gyfer cyd-destun y Parc Cenedlaethol lleol. Maent yn seiliedig ar gyfres o barthau, wedi'u dynodi gan eu hagosrwydd at Ganolfannau ac argaeledd mynediad heb gar at gyfleusterau a gwasanaethau. Maent yn sefydlu'r **uchafswm** gofynion parcio ar gyfer pob math o ddatblygiad ym mhob un o'r parthau. Mae gofynion parcio beiciau, parcio anabl a pharcio beiciau modur hefyd wedi'u cynnwys.
6. Mae Polisi 59 Cynllun Datblygu Lleol 2 (Trafndiaeth Gynaliadwy) yn sefydlu'r gofynion i sicrhau bod gofynion trafndiaeth, mynediad a pharcio addas ar gyfer datblygiadau newydd.

Polisi 59      Trafndiaeth Gynaliadwy (Polisi Strategaeth)  
Sicrhau y gweithredir ar gyfleoedd i wella a hyrwyddo dewisiadau teithio cynaliadwy a lleihau'r angen i deithio gyda char drwy:

- a) Ganiatáu cynigion sy'n cynorthwyo i ddarparu rheolaeth well o drafft a pharcio;
- b) Caniatáu cyfleusterau i wella trafndiaeth gyhoeddus drwy helpu i gysylltu rhwng dulliau teithio neu ddarparu cyfleusterau i deithwyr;
- c) Sicrhau bod datblygiadau newydd wedi'u dylunio'n dda drwy ddarparu

- d) mynediad addas ar gyfer cerddwyr, beicwyr, cerbydau a thrafnidiaeth gyhoeddus lle mae hynny'n briodol; a
- e) Pheidio â chaniatáu cynigion sy'n achosi pryderon sylweddol ynglŷn ag effeithiau trafndiaeth bosibl na ellir eu lliniaru'n foddhaol (gweler Polisi 60)

## Gosod y Cyd-destun ar gyfer Datblygiadau Cynaliadwy

7. Eifen allweddol datblygiad cynaliadwy yw ei leoliad a'r gallu i gyrraedd y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi blaenoriaeth i gerdded a beicio ar gyfer teithiau byrrach a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn hytrach na cherbydau modur preifat lle bynnag y gallwn. I'r perwyl hwn, bydd y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yn cael eu cyfeirio at leoliadau sy'n lleihau'r angen i deithio gyda char. Yn ogystal, mae hyn yn golygu rhoi ystyriaeth lawn i isadeiledd cerddwyr a beicio o fewn datblygiadau.
8. Mewn ardaloedd gwledig megis Sir Benfro, cydnabyddir bod dibyniaeth uwch ar geir i fynd o gwmpas, ond er hynny, dylid lleoli datblygiadau newydd i leihau'r angen i deithio gyda char. Gan edrych ymlaen, wrth i dechnoleg newid, mae angen i ni sicrhau bod ein cartrefi a'n cymunedau yn gallu addasu'n gyflym ac yn rhwydd i danwyddau glanach. Yn ogystal â chreu amgylchedd ffafriol ar gyfer cerdded a beicio, mae angen i ni gyfarparu ein cartrefi, busnesau a manau cyhoeddus i gefnogi'r defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn. Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11), paragraff 4.1.40 ac 4.1.41, bydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn annog y ddarpariaeth o bwyntiau gwefru cerbydau allyriadau isel iawn fel rhan o ddatblygiadau newydd.

Figure 8: The Sustainable Transport Hierarchy for Planning



Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11; Chwefror 2021)

9. Yn allweddol i ddylunio a strwythuro datblygiadau newydd fydd yr angen i flaenoriaethu teithio actif a chynaliadwy. Rhaid i ddyluniad a strwythur ffyrdd a

strydoedd o fewn datblygiadau roi blaenoriaeth uchel i'w rôl fel manau cyhoeddus a bodloni anghenion cerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus yn ogystal â modurwyr. Cyfeirir datblygwyr at bolisi 'Llawlyfr Strydoedd'<sup>1</sup> a 'Llawlyfr Strydoedd 2'<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddyluniad stryd beidio â dilyn y dull ar sail peirianeg gonfensiynol. Yn ogystal, bydd cyngor defnyddiol i'w gael yng Nghantllawiau Dylunio Teithio Gweithredol Llywodraeth Cymru<sup>3</sup>.

10. Dylid adnabod a dylunio yn gynnar y llwybrau byrraf a'r mwyaf deniadol i alluogi cysylltiadau clir ar gyfer cerddwyr a beicwyr i'r datblygiad ac oddi mewn iddo. Dylai ffyrdd o annog cerdded a beicio diogel at wasanaethau a chyfleusterau lleol, ac at ddibenion hamddenol fod yn fan cychwyn i ddylunio a strwythuro cynigion datblygu.
11. Dylid darparu'r llwybrau diogel nesaf at drafndiaeth gyhoeddus yn y datblygiadau. Nid yw'r ddadl nad oes trafndiaeth gyhoeddus mewn ardal yn rheswm dros leihau cyfleoedd ar gyfer datrysiadau cynaliadwy hirdymor. Mae pobl mewn manau gwledig ac anghysbell angen mwy o gyfleoedd i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Gellir cyflawni hyn naill ai drwy fynediad gwell at wasanaethau cyfredol neu drwy ddarparu gwasanaethau newydd ac arloesol - y mae pob un ohonynt yn gofyn am fannau stopio diogel i deithwyr neu fannau gorffwys diogel ar gyfer gwasanaethau teithiol, megis banciau a siopau symudol. Mewn rhai trefi a phentrefi yn y Parc Cenedlaethol mae gwasanaethau trenau yn darparu opsiwn teithio cynaliadwy.
12. Mae argaeledd parcio ceir yn elfen allweddol o reoli'r defnydd ehangach o geir. Mae safonau parcio ceir ar gyfer datblygiadau yn y Parc Cenedlaethol wedi'u sefydlu yn y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn. Maent wedi'u seilio ar yr angen i annog dewisiadau teithio gweithredol a chynaliadwy a lleihau dibyniaeth ar deithio gyda char. Caiff **uchafswm** y gofynion parcio eu sefydlu yn y canllawiau hyn a bydd ehangder y parcio gofynnol yn dibynnu ar ba mor rhwydd y gellir cyflawni mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau lleol drwy ddulliau teithio gwahanol. Mae'n bosibl bod gofyn cyflwyno Cynlluniau Teithio fel rhan o geisiadau cynllunio ar gyfer cynigion datblygiadau mwy a'r rheiny sydd wedi'u lleoli mewn lleoliadau cefn gwlad.

## Parthau

13. Mae'r gofynion parcio wedi'u nodi mewn cyfres o Barthau - o rif 1 i 6:
  - a. **Parth 1:** Ardaloedd penodol o fewn Ardaloedd Cadwraeth sydd wedi'u hadnabod fel gwerth gweledol a/neu hanesyddol sylweddol.
  - b. **Parth 2:** Ardaloedd â darpariaeth dda o ran gwasanaethau, chyfleusterau a thrafndiaeth gyhoeddus. Bydd datblygiad newydd yn y

---

<sup>1</sup>Gweler gwefan Llywodraeth Cymru

<sup>2</sup> Gweler gwefan Llywodraeth Cymru

<sup>3</sup> Gweler gwefan Llywodraeth Cymru

parth hwn o fewn 500m o bellter cerdded i 4 neu fwy o wasanaethau lefel uchaf<sup>4</sup>.

- c. **Parth 3:** Dylai'r datblygiad fod o fewn pellter cerdded rhwng 500m a 1km i 4 neu fwy o wasanaethau lefel uchaf.
- d. **Parth 4:** Rhaid i ddatblygiad newydd yn y parth hwn gael sgôr bwysol o 8 neu fwy o bwyntiau o wasanaethau lefel uchaf a/neu'r prif wasanaethau.
- e. **Parth 5:** Rhaid i ddatblygiad newydd yn y parth hwn gael sgôr bwysol o 4 i 7 pwynt o wasanaethau lefel uchaf a/neu'r prif wasanaethau.
- f. **Parth 6:** Pob ardal arall y tu allan i Barthau 1 i 5.

---

<sup>4</sup> Gweler Adran A

## Adran A: Gwasanaethau a Phwysoli Gwasanaethau

	Gwasanaethau Lefel Uchaf					Prif Wasanaethau			
<b>Math o Wasanaeth</b>	Siop Fwyd	Swyddfa'r Post	Gwasanaeth Trên Dyddiol	Gwasanaeth Bws Rheolaidd	Ysgol Babanod / Cynradd	Garej / Siop Fwyd a Nwyddau	Tŷ Tafarn	Fferyllfa / Meddygfa	Neuadd / Man Cyfarfod Cymunedol
<b>Pwysoli</b>	5 pwynt	3 phwynt	3 phwynt	3 phwynt	3 phwynt	2 bwynt	2 bwynt	2 bwynt	2 bwynt

## Adran B: Gofynion Parcio Beiciau

Lle mae lefel uchel o fyfyrwyr rhan-amser (dyddiau astudio), mae'r safon i Golegau Addysg Uwch/Prifysgolion yn cynyddu i 1 stondin fesul 3 myfyriwr

Dylai'r ddarpariaeth parcio beiciau fod yn ddiogel, wedi'i gorchuddio ac yn agos at y fynedfa.

Math o Ddatblygiad	Darpariaeth Parcio Beiciau
Neuaddau, sinemâu, theatrau a chanolfannau cynadledda, stadia	1 lle fesul 10 unigolyn
Safle gwerthu ceir	1 stondin fesul 1000m <sup>2</sup>
Eglwysi a mannau addoli	1 stondin fesul 50m <sup>2</sup> o arwyneb llawr cyhoeddus
Canolfannau iechyd a meddygfeydd	1 stondin fesul ystafell ymgynghori
Ysbytai a chartrefi gofal	1 stondin fesul 20 gwely
Gwestai	1 stondin fesul 10 unigolyn
Diwydiant, warysau a chanolfannau storio	1 stondin fesul 200m <sup>2</sup>
Canolfannau hamdden a chlybiau hamdden/ffitwydd	1 stondin fesul 5 aelod o staff
Llyfrgelloedd	1 stondin fesul 2 aelod o staff
Swyddfeydd	1 stondin fesul 200m <sup>2</sup>
Tai tafarn, tai bwyta a chaffis	1 stondin fesul 200m <sup>2</sup>
Fflatiau preswyl	1 stondin fesul 2 ystafell wely
Warysau manwerthu - bwyd/ar wahân i fwyd/talu a chludo/marchnadoedd	1 stondin fesul 500m <sup>2</sup>
Ysgolion a Cholegau Addysg Bellach	1 stondin fesul 50 unigolyn
Llety hunangynhwysol ar gyfer yr henoed	1 stondin fesul 20 gwely
Siopau hyd at 1000m <sup>2</sup>	1 stondin fesul 100m <sup>2</sup>
Archfarchnadoedd	1 stondin fesul 200m <sup>2</sup>



## Adran C: Uchafswm Gofynion Parcio Preswyl

	Preswylwyr	Ymwelwyr	Parcio Anabl (Ileiafswm)
<b>Parth 1</b>	Nid oes gofynion parcio		
<b>Parthau 2, 3, 4</b>			
Tai	2 lle fesul tŷ	Dim	Amherthnasol
Fflatiau	1 lle fesul fflat	Dim	Amherthnasol
Trosi tai yn llety preswyl	1 lle fesul pob aelod o staff preswyl 1 lle fesul 3 aelod o staff dibreswyl	Dim	6% o gyfanswm y ddarpariaeth
Aneddiadau hunangynhwysol ar gyfer henoed (heb warden)	1 lle fesul 2 uned	1 lle fesul 4 uned	6% o gyfanswm y ddarpariaeth
Aneddiadau hunangynhwysol ar gyfer yr henoed (gyda warden)	1 lle fesul 4 uned 1 lle i'r warden 1 lle fesul 2 aelod o staff cynorthwyol	1 lle fesul 4 uned	6% o gyfanswm y ddarpariaeth
Llety myfyrwyr pwrpasol dan reolaeth y coleg/prifysgol	1 lle fesul 4 uned 1 lle i'r warden 1 lle fesul 2 aelod o staff cynorthwyol	1 lle fesul 10 gwely (i fyfyrwyr a/neu ymwelwyr)	6% o gyfanswm y ddarpariaeth
Cartrefi plant preswyl/cartrefi'r henoed/cartrefi nyrsio	1 lle fesul pob aelod o staff preswyl 1 lle fesul 3 aelod o staff dibreswyl	1 lle fesul 4 gwely	6% o gyfanswm y ddarpariaeth
<b>Parth 5</b>			
Tai	3 lle fesul tŷ	1 lle fesul 5 tŷ	Amherthnasol
Fflatiau	1 lle fesul fflat	1 lle fesul 5 annedd	Amherthnasol

	<b>Preswylwyr</b>	<b>Ymwelwyr</b>	<b>Parcio Anabl (Ileiafswm)</b>
Trosi tai yn llety preswyl	1 lle fesul aelod o staff preswyl 1 lle fesul 3 aelod o staff dibreswyl	Dim	6% o gyfanswm y ddarpariaeth
Aneddiadau hunangynhwysol ar gyfer yr henoed (heb warden)	1 lle fesul 2 uned	1 lle fesul 4 uned	6% o gyfanswm y ddarpariaeth
Aneddiadau hunangynhwysol ar gyfer yr henoed (gyda warden)	1 lle fesul 4 uned 1 lle i'r warden 1 lle fesul 2 aelod o staff cynorthwyol	1 lle fesul 4 uned	6% o gyfanswm y ddarpariaeth
Llety myfyrwyr pwrpasol dan reolaeth y coleg/prifysgol	1 lle fesul 4 uned 1 lle i'r warden 1 lle fesul 2 aelod o staff cynorthwyol	1 lle fesul 10 gwely (i fyfyrwyr a/neu ymwelwyr)	6% o gyfanswm y ddarpariaeth
Cartrefi plant preswyl/cartrefi'r henoed/cartrefi nyrsio	1 lle fesul aelod o staff preswyl 1 lle fesul 3 aelod o staff dibreswyl	1 lle fesul 4 gwely	6% o gyfanswm y ddarpariaeth
<b>Parth 6</b>	Yn ôl cytundeb drwy gynllun teithio		

## Adran D: Uchafswm Gofynion Parcio Datblygiad Dibreswyl

Parcio Beiciau Modur	5% o'r ddarpariaeth parcio ceir
Parcio anabl	6% o'r ddarpariaeth parcio ceir neu, lle sy'n briodol, yn ôl cytundeb drwy gynllun teithio
Pwyntiau gwefru cerbydau allyriadau isel iawn	10% o'r ddarpariaeth parcio ceir neu, lle sy'n briodol, yn ôl cytundeb drwy gynllun teithio

### Gofynion Parcio ar gyfer Swyddfeydd

	Swyddfa <1000m <sup>2</sup>	Swyddfa >1000m <sup>2</sup>
Parth 1	Dim	
Parth 2	1 lle fesul 35m <sup>2</sup>	1 lle fesul 60m <sup>2</sup>
Parth 3	1 lle fesul 25m <sup>2</sup>	1 lle fesul 40m <sup>2</sup>
Parth 4	1 lle fesul 20m <sup>2</sup>	1 lle fesul 25m <sup>2</sup>
Parthau 5 a 6	Yn ôl cytundeb drwy gynllun teithio	

### Gofynion Parcio ar gyfer Siopau

	Gweithredol	Anweithredol
Parth 1	Dim	
Parth 2		
Siopau <200m <sup>2</sup>	1 lle i gerbyd masnachol	1 lle fesul 60m <sup>2</sup>
Siopau ac archfarchnadoedd 201 i 2000m <sup>2</sup>	2 lle i gerbydau masnachol	1 lle fesul 40m <sup>2</sup>
Archfarchnadoedd ac uwchfarchnadoedd (bwyd yn bennaf) >2000m <sup>2</sup>	3 lle i gerbydau masnachol	1 lle fesul 14m <sup>2</sup>
Parthau 3 a 4		
Siopau <200m <sup>2</sup>	1 lle i gerbyd masnachol	1 lle fesul 60m <sup>2</sup>

	<b>Gweithredol</b>	<b>Anweithredol</b>
Siopau ac archfarchnadoedd 201m <sup>2</sup> i 2000m <sup>2</sup>	2 lle i gerbydau masnachol	1 lle fesul 40m <sup>2</sup>
Archfarchnadoedd ac uwchfarchnadoedd (bwyd yn bennaf) >2000m <sup>2</sup>	3 lle i gerbydau masnachol	1 lle fesul 20m <sup>2</sup>
Parthau 5 a 6	Yn ôl cytundeb drwy gynllun teithio	

### Warysau Manwerthu a Garejis

	<b>Gweithredol</b>	<b>Anweithredol</b>
Parth 1	Dim	
Parth 2,3,4		
Warysau Manwerthu (ar wahân i fwyd, ar wahân i DIY) <sup>2 5</sup>	3 lle i gerbydau masnachol	1 lle fesul 30m <sup>2</sup>
Masnachwyr Adeiladwyr (Masnach a Manwerthu)	3 lle i gerbydau masnachol	1 lle fesul 80m <sup>2</sup>
Warysau Talu a Chludo (Masnach yn Unig) >1000m <sup>2</sup>	3 lle i gerbydau masnachol	1 lle fesul 80m <sup>2</sup>
Garejis	1 lle i lori a 20% o'r arwynebedd llawr gros	2 lle i gar/lori fesul pob bae gwasanaeth
Safle gwerthu ceir/beiciau modur	1 lle i gerbyd masnachol	1 lle fesul 50m <sup>2</sup> o ardal fanwerthu (mewnol ac allanol)
Ysgolion Gyrru, Hurio Preifat/Hurio Cerbydau, Tacsis Trwyddedig	1.25 lle fesul bob cerbyd gweithredol	1 lle fesul 3 aelod o staff cynorthwyol
Parthau 5 a 6	Yn ôl cytundeb drwy gynllun teithio	

<sup>5</sup> Ar gyfer safleoedd hyd at uchafswm o 200m<sup>2</sup> o arwynebedd llawr gros, caniateir cynnydd o 20% heb yr angen am ragor o lefydd parcio. Gellir gwneud y lwfans hwn unwaith yn unig a rhaid adleoli unrhyw lefydd parcio sy'n cael eu disodli.

Math o Ddatblygiad	Parthau 2 i 6	
	Gweithredol	Anweithredol
<b>Diwydiant a Warysau Diwydiannol</b>		
Diwydiant Bach (<1000m <sup>2</sup> )	1 lle i fan	2 le
Diwydiant (gan gynnwys diwydiant uwch-dechnoleg)	Gweler Nodyn 1	1 lle fesul 100m <sup>2</sup>
Diwydiant a warysau storio	1 lle masnachol fesul 500m <sup>2</sup>	1 lle fesul 140m <sup>2</sup>
Canolfannau dosbarthu	1 lle fesul 35% o'r Arwynebedd Llawr Gros	1 lle fesul 120m <sup>2</sup>
<b>Mannau Adloniant</b>		
Canolfannau chwarae plant	1 lle fesul 3 aelod o staff	1 lle fesul 20m <sup>2</sup> o ardal chwarae
Neuaddau ymgynnull (Cymdeithasol) e.e. clwb didrwydded, canolfan gymunedol, sinemâu, theatrau a chanolfannau cynadledda	1 lle i gerbyd masnachol	1 lle fesul 5 sedd
Stadia	Yn ôl cytundeb drwy gynllun teithio	
Pob math	Dylai cerbydau allu mynd i mewn i'r safle a'i adael drwy yrru ymlaen	
<b>Gwestai a Thai Bwyta</b>		
Pob math	1 lle i gerbyd masnachol	1 lle fesul 3 aelod o staff dibreswyl
Gwestai		<b>Yn ychwanegol</b> , 1 lle fesul 1.5 ystafell wely
Tai Tafarn a Chlybiau Trwyddedig a thai bwyta (gweler nodyn 2)		<b>Yn ychwanegol</b> , 1 lle fesul 10m <sup>2</sup> o ardal gyhoeddus gan gynnwys ardaloedd gweini a bwyta
Pob math	Dylai cerbydau allu mynd i mewn i'r safle a'i adael drwy yrru ymlaen	
<b>Sefydliadau Cymunedol</b>		
Ysbytai	Yn ôl cytundeb drwy gynllun teithio	
Canolfannau iechyd a meddygfeydd	1 lle fesul ymarferydd	1 lle fesul 3 aelod o staff cynorthwyol a 3 lle fesul ymarferydd
Eglwysi a manau addoli	1 lle i gerbyd masnachol	1 lle fesul 20m <sup>2</sup> o arwynebedd llawr
Trefnwyr angladdau	2 le i gerbydau masnachol	1 lle fesul 2 aelod o staff a 1 lle i ymwelwyr

Math o Ddatblygiad	Parthau 2 i 6	
	Gweithredol	Anweithredol
Clybiau ffitrwydd, clybiau hamdden a chlybiau chwaraeon	1 lle i gerbyd masnachol	1 lle fesul 2 ddefnyddiwr cyfleuster
Llyfrgelloedd	1 lle i gerbyd masnachol	1 lle fesul 100m <sup>2</sup>
Rhandiroedd	1 lle fesul 4 defnyddiwr cyfleuster	
<b>Sefydliad Addysgol</b>		
Crèche, Meithrinfeydd/Ysgolion Cynradd	1 lle i gerbyd masnachol yn ogystal ag 1 lle fesul 2 aelod o staff llawn amser	
Ysgolion Uwchradd, Colegau Addysg Uwch/Pellach	Yn ôl cytundeb drwy gynllun teithio	

## Nodiadau

### Nodyn 1

a. Safonau Parcio Diwydiant a Warysau Diwydiannol ar gyfer Pob Parth

Arwynebedd Llawr Gros m <sup>2</sup>	Isafswm m <sup>2</sup>	Arwynebedd Llawr Gros m <sup>2</sup>	Isafswm m <sup>2</sup>	Arwynebedd Llawr Gros m <sup>2</sup>	Isafswm m <sup>2</sup>
100	70	500	100	1001	150
250	85	1000	150	2000	200

Ar gyfer arwynebedd llawr gros o fwy na 2000m<sup>2</sup>, dylid cymryd yr ardal weithredol fel 10% o'r arwynebedd llawr gros.

- b. Ar gyfer safleoedd hyd at uchafswm o 235m<sup>2</sup> o arwynebedd llawr gros, caniateir cynnydd o 20% heb yr angen am ragor o lefydd parcio. Gellir gwneud y lwfans hwn unwaith yn unig a rhaid adleoli unrhyw lefydd parcio sy'n cael eu disodli.
- c. Dylai cerbydau allu mynd i mewn i'r safle a'i adael drwy yrru ymlaen
- d. Diffinnir cyfyngiad y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol o 235m<sup>2</sup> fel y trothwy uchaf ar gyfer meintiau unedau i annog cwmnïau newydd sydd angen safleoedd o faint garej. Diffinnir unedau mwy fel 'diwydiant'.

### Nodyn 2 - Tai bwyta a chaffis

- a. Gellir llacio'r gofyniad anweithredol ar gyfer tai bwyta a chaffis mewn mannau siopa sefydledig os gellir dangos eu bod yn gysylltiedig â'r ardal siopa neu lle caiff tai bwyta o'r fath eu defnyddio'n bennaf gyda'r nos pan mae digonedd o lefydd parcio yn y cyffiniau. Fodd bynnag, rhaid darparu digon o le parcio i staff yn y cefn.
- b. Rhaid i dai bwyta, gan gynnwys cyfleusterau pryd wrth fynd ar gyfer archebu a chasglu bwyd gyda char, gael mynediad mewnol ar wahân at y diben hwn a chael o leiaf 6 man aros.

## **Adran E: Ardaloedd Parth 1**

1. Diffinnir ardaloedd Parth 1 (dim gofyniad parcio) o fewn rhannau o'r Ardaloedd Cadwraeth canlynol:
  - Aber-bach
  - Solfach Isaf
  - Maenorbŷr
  - Trefdraeth
  - Parrog Trefdraeth
  - Saundersfoot
  - Tyddewi
  - Dinbych-y-pysgod
  - Solfach Uchaf

Gweler y mapiau.



## Adran F: Darpariaeth Parcio i Bobl Anabl

1. Erbyn hyn mae'n ofynnol i bob adeilad cyhoeddus newydd, lle mae'n rhesymol ac yn ymarferol, fod yn hygyrch a chynnwys cyfleusterau i bobl anabl. Mae gofynion Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 a Deddf Cleifion Cronig, Personau Anabl (Diwygiad) 1976 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 yn berthnasol i ystod eang o adeiladau, gan gynnwys swyddfeydd, siopau, banciau, swyddfeydd post, canolfannau hamdden, gwestai, tai bwyta a thai tafarn, theatrau a sinemâu, canolfannau arddangos, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd, neuaddau cymunedol ac eglwysi, ynghyd â mannau addysgol, gan gynnwys ysgolion, prifysgolion a cholegau. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a gall mathau eraill o adeiladau fod yn berthnasol i delerau'r Ddeddf.
2. Rhaid i ddatblygwyr roi ystyriaeth ddyledus i'r canlynol:
  - a. Argymhellir y dylid darparu mannau parcio wedi'u gosod yn addas, yn ddelfrydol o fewn 50m i'r cyfleuster y mae'r maes parcio yn ei wasanaethu ac sy'n ddigonol o ran maint a nifer i bobl anabl.
  - b. Darperir system glir o arwyddion at y mynediad priodol ar gyfer y bobl anabl gan y datblygwr.
  - c. Dylai datblygwyr ystyried yn ofalus lefelau perthynol llefydd parcio a lefelau llawr gorffenedig yn gynnar yn y cynigion cynllunio fel y gellir cynnal llwybr sydd bron yn wastad (yn ddelfrydol yn llai na graddfa o 5%) rhwng y ddau, lle bynnag mae hynny'n bosibl.